

## Cynllun Grant Bach Cyfalaf Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant Bro Morgannwg - beth y gellir ac na ellir ei ariannu 2022-23

Pwrpas y Cyllid yw galluogi darparwyr blynnyddoedd cynnar a gofal plant i wneud cais am symiau bach o gyllid grant i wella eu hadeiladau ar gyfer darparu gwasanaethau gofal plant.

Gwarchodwyr plant	Hyd at £10,000
Darparwyr gofal plant sydd wedi'u cofrestru ar gyfer 15 lle neu'n llai	Hyd at £10,000
Darparwyr gofal plant sydd wedi'u cofrestru ar gyfer rhwng 16 a 29 lle	Hyd at £15,000
Darparwyr gofal plant wedi eu cofrestru ar gyfer o leiaf 30 lle	Hyd at £20,000

Eitem	Uchafswm	A oes angen dyfynbrisiau?	Sylwadau
Gwaith adeiladu	Hyd at 100% o gyfanswm y gost	3	
Gwaith adnewyddu cyffredinol	Hyd at 100% o gyfanswm y costau	3	Er enghraifft: paentio ac addurno gan gwmni allanol
Gliniadur	£400	Nac oes	Prynu ar gyfer gwaith gweinyddu yn unig. Ddim i'w ddefnyddio gyda phlant
Argraffydd	£100	Nac oes	Prynu ar gyfer gwaith gweinyddu yn unig. Ddim i'w ddefnyddio gyda phlant
Offer awyr agored e.e. ffrâm ddringo		Nac oes	
Storfa/sied Dan do Awyr agored		Nac oes	
Sedd car (yr un)		Nac oes	
Storfa dan do		Nac oes	

### Canllawiau ar gyfer ceisiadau grant gan ddarparwyr gofal plant (ac eithrio gwarchodwyr plant)

Gellir cynnig cyllid am waith cyfalaf amrywiol y gall fod ei angen megis:

- Ailwampio cyffredinol, gan gynnwys paentio, newid carpedi ac ati;
- Gwella cyfleusterau chwarae awyr agored lleoliad, megis newid yr arwyneb chwarae awyr agored neu adeiladu canopi;
- Newid/trwsio gosodiadau a ffitiadau megis toiledau, cyfleusterau cegin, ffenestri, drysau ac ati;
- Disodli offer / dodrefn / storfeydd sydd mewn cyflwr gwael a allai o bosibl beri risg i iechyd a diogelwch. Er enghraifft, ffrâm ddringo sydd wedi rhydu, dodrefn sydd wedi torri neu sydd wedi ei dreulio'n wael ac a allai achosi sblintiau;
- Offer TG os oes modd dangos yn glir bod ei angen er mwyn cynnig lleoedd Cynnig Gofal Plant. Gall hyn gynnwys gliniaduron, argraffwyr ac ati. Ni fyddai hyn yn cynnwys offer TG i blant ei ddefnyddio
- Addasiadau i'r lleoliad i wella mynediad ac ati; a

- Gwariant ar eitemau cyfalaf i ganiatáu i'r lleoliad fod yn fwy hygyrch/cynhwysol i blant sydd ag anableddau a/neu anghenion dysgu ychwanegol h.y. offer, rampiau ayyb.

Mae'r cyllid grant ar gyfer prynu cyfalaf yn unig - rhywbeth sydd â gwerth ailwerthu neu sy'n cynyddu gwerth yr eiddo. Does dim modd ei ddefnyddio i ariannu:

- Prynu nwyddau untro, megis papur, deunyddiau glanhau, cewynnau ac ati;
- Cyfarpar Diogelu Personol
- Costau staff megis cyflogau, hyfforddiant, teithio a chynhaliaeth;
- Biliau nwy/trydan/dŵr, ardrethi;
- MacBook, iPad/Kindle Fire/llechi eraill
- Teganau/posau/llyfrau
- Byrddau Chwarae/Îs Celf/Byrddau Sialc
- Chwaraewr MP3 a seinyddion/camera
- Darparu Wi-Fi;
- Costau yswiriant e.e. yswiriant adeilad, yswiriant atebolrwydd cyflogwr ac ati.
- Prynu neu brydlesu cerbydau, costau eu rhedeg, megis yswiriant, tanwydd, gwasanaethu ac ati.

\*\*\*\*\*

### **Canllawiau ar gyfer ceisiadau grant gan warchodwyr plant**

Fel gwarchodwr plant sy'n gweithio ar safle domestig, byddwch yn dangos yn glir natur yr hyn y gofynnir amdano a pham, a sut mae hyn o fudd i'r lleoliad gwarchod plant a'r plant yn eu gofal. Nid yw'r cyfraniad grant bach i'w ddefnyddio ar gyfer ailwampio cyffredinol, disodli neu atgyweirio ffitiadau o fewn yr eiddo domestig.

Gellir cynnig cyllid am waith cyfalaf amrywiol y gall fod ei angen megis:

- Gwella cyfleusterau chwarae awyr agored lleoliad, megis newid yr arwyneb chwarae awyr agored neu adeiladu canopi;
- Gwella'r ardal awyr agored er mwyn gallu cofrestru gydag AGC
- Disodli offer / dodrefn / storfeydd sydd wedi treulio a allai o bosibl beri risg i iechyd a diogelwch. Er enghraifft, ffrâm ddringo sydd wedi rhydu, dodrefn sydd wedi torri neu sydd wedi ei dreulio'n wael ac a allai achosi sbintiau;
- Offer TG ar gyfer gweinyddu plant o fewn eich gofal. **Ni fyddai hyn yn cynnwys offer TG i blant ei ddefnyddio**
- Gwariant ar eitemau cyfalaf i ganiatáu i'r lleoliad fod yn fwy hygyrch/cynhwysol i blant sydd ag anghenion neu anableddau ychwanegol;

Mae'r cyllid grant ar gyfer prynu cyfalaf yn unig - rhywbeth sydd â gwerth ailwerthu.

Mewn lleoliad gwarchod plant nid oes modd ei ddefnyddio i ariannu:

- Prynu nwyddau untro, megis papur, deunyddiau glanhau, cewynnau, bwyd ac ati;
- Costau staff megis cyflogau, hyfforddiant, teithio a chynhaliaeth;
- Biliau nwy/trydan/dŵr, ardrethi;
- Darparu Wi-Fi;
- MacBook, iPad/Kindle Fire/llechi eraill
- Teganau/posau/llyfrau
- Byrddau Chwarae/Îs Celf/Byrddau Sialc
- Chwaraewr MP3 a seinyddion/camera
- Costau yswiriant e.e. yswiriant adeilad, yswiriant atebolrwydd cyflogwr ac ati.
- Ailwampio cyffredinol, gan gynnwys paentio, newid carpedi ac ati.
- Newid/trwsio gosodiadau a ffitiadau megis toiledau, cyfleusterau cegin, ffenestri, drysau ac ati;

- Nid yw costau prynu neu brydlesu cerbydau'n gymwys ar gyfer cyllid, na chostau eu rhedeg chwaith, megis yswiriant, petrol, gwasanaethu ac ati
- Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr; os oes unrhyw amheuaeth o ran a yw eitem yn gymwys neu beidio, cysylltwch â Debbie Maule [dmaule@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:dmaule@valeofglamorgan.gov.uk)